



Cylchlythyr Ysgol Santes Helen.

24/9/25

Diolch yn fawr/Thank-you very much

Croeso cynnes i bawb ar ôl gwyliau'r Haf. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fwynhau'r tywydd braf.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich caredigrwydd tuag atom ni fel staff ddiwedd tymor diwethaf.

A warm welcome to everyone after the Summer holidays. I hope you had a chance to enjoy the warm weather.

Thank you very much for your kindness towards us as staff at the end of last term.

Pnawn agored/ Open afternoon

Bydd cyfle i rieni ddod i'r ysgol ddydd Mercher 1af o Hydref am 3 o'r gloch i wrando ar y plant yn canu caneuon, cael lluniaeth ysgafn ac i gyfarfod y staff a rhai o'r llywodraethwyr. Croeso cynnes i chi gyd.

There will be an opportunity for parents to come to the school on Wednesday 1st of October at 3 o'clock to listen to the children sing songs, have light refreshments and to meet the staff and some of the governors. A warm welcome to you all.

Gwersi offerynnol/Instrument lessons.BI 3-6

Bydd gwersi piano yn cychwyn dydd Llun nesaf ac mae'n bosib i chi dalu ar lein rŵan. Y gost am y flwyddyn ydi £120 am 30 gwers. Rydym yn dal i aros am gadarnhad gan y tiwtor gitâr.

Piano lessons will start next Monday and you can now pay online. The cost for the year is £120 for 30 lessons. We are still awaiting confirmation from the guitar tutor.

Gateway app.

Os yw rhieni'n dal i gael anhawster gyda'r ap Gateway, cysylltwch â ni neu rhowch wybod i Mrs Thomas wrth y drws. Bydd Wendy Jones, ein cynorthwydd Clerigol/cyfrifol o Gyngor Gwynedd, yn yr ysgol yfory.

If parents are still having difficulty with the school gateway app, please contact us or inform Mrs Thomas at the door. Wendy Jones our Clerical/accounts assistant from Gwynedd Council, will be in school tomorrow.

Hanner tymor/Gwyliau ysgol.

Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Gwener 24ain o Hydref ar gyfer hanner tymor ac yn ail agor ar y 3ydd o Dachwedd.

The school will close on Friday 24th October for half term and re-open on 3rd November.

Gwyliau ysgol ac absenoldebau/School holidays and absences

Dymunwn eich atgoffa fod angen i rieni ofyn am ffurflen gais am wyliau os ydynt yn bwriadu mynd â phlant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor. Yn unol â phob ysgol arall yng Nghymru, ni all yr ysgol awdurdodi plant i gymryd mwy na phythefnos o wyliau yn ystod y flwyddyn a bydd hyn yn cael ei nodi ar gofrestr ar-lein yr ysgol fel absenoldeb heb ei awdurdodi.

Rhaid hysbysu'r ysgol hefyd am unrhyw absenoldebau o'r ysgol. Cysylltwch â'r ysgol drwy neges destun, e-bost neu ffôn ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

Please could I remind you that parents need to ask for a holiday request form if they intend to take children out of school for holidays during term time. In line with all the other schools in Wales the school cannot authorise children taking more than two weeks holiday during the year and this will be noted on the school online register as unauthorized.

The school must also be informed of any absences from school. Please contact the school by text, e.mail or phone on the first day of the absence.

Bwydlen ysgol/ School menu

Mae'r ysgol yn dal i ddilyn bwydlen yr Haf ac mae'r wythnos hon yn Wythnos 1. Os oes angen copi o'r fwydlen arnoch gofynnwch i Mrs Thomas wrth y drws. Bydd bwydlen newydd yn cael ei chyflwyno ar ôl hanner tymor.

The school is still following the Summer menu and this week is Week 1. If you require a copy of the menu please ask Mrs Thomas at the door. A new menu will be rolled out after the half term.

Cyfeillion yr ysgol/Friends of the school

Mae cyfeillion yr ysgol yn grŵp o rieni sy'n trefnu digwyddiadau cymdeithasol i godi arian i'r ysgol a Chylch Meithrin Twtil.

Cynhelir cyfarfod am 2.30pm ddydd Mawrth y 7fed o Hydref i drafod digwyddiadau'r tymor. Rydym yn croesawu rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r teulu sy'n dymuno helpu.

Friends of the school are a group of parents who organise social events to raise money for the school and Cylch Meithrin Twtil.

A meeting will be held at 2.30pm on Tuesday the 7th of October to discuss events for the term. We welcome parents/ guardians and family members who wish to help.

Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad.

Thank you for your co operation

E.M Bradley-Roberts